# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 25.01.2017*

## Ymweliad Paul Pugh â'r chweched dosbarth

Mewn gwers Diwtorial yn ddiweddar gyda'r Chweched Dosbarth daeth Paul Pugh i'r ysgol fel siaradwr gwadd. Soniodd am yr ymosodiad erchyll a fu arno yn Rhydaman ddeng mlynedd yn ôl gan ddieithriaid meddw. Ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys mae ymgyrch Paul's Pledge yn rhannu profiadau Paul gyda phobl ifanc trwy ddangos rhaglen ddogfen am y digwyddiad. Siaradodd gyda'r chweched am effaith alcohol a chyffuriau ar unigolion. Yn aml iawn mae'r effeithiau yn newid pobl i fod yn ymosodol iawn. Dywedodd Paul "Yr ymgyrch hon yw fy ffordd i o wneud rhywbeth cadarnhaol ar ôl yr hyn sydd wedi digwydd. Yr wyf yn gobeithio bydd clywed fy stori a gweld effaith trais arnaf fi yn rhwystro i hyn ddigwydd eto". Diolchwn yn fawr iawn i Paul am roi o'i amser i rannu ei brofiadau ac i fod yn barod i sgwrsio gyda ni.



## Tîm seiclo Prydain 2017

Llongyfarchiadau i Guto Dafydd o flwyddyn 10 ar gael ei ddewis i dîm seiclo Prydain 2017 o dan 16eg oed. Dyma lun o Guto yn gwisgo ei git tîm Prydain.
Pob lwc i ti.

## Llwyddiant canu

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau canu gradd pump yn ddiweddar sef; Sara Llwyd James, Lowri Richardson, Annell Dyfri a Gwennan Evans. Da iawn chi.



## Canlyniadau Pêl droed Dydd Mawrth 24ain o Ionawr

Llongyfarchiadau i fechgyn y tîm cyntaf ar ei buddugoliaeth o 2-1 yn erbyn ysgol Penweddig. Mae'r tîm bellach yn rownd go-gynderfynol cwpan ysgolion Cymru.

Yn anffodus colli wnaeth y tîm merched o 2-1 yn erbyn Penweddig.

# Cit newydd i ferched hoci hŷn yr ysgol

Braf oedd cael derbyn cit hoci newydd sbon gan ein noddwyr y Princiaplity yn ddiweddar. Bu dau gynrychiolydd o'r Principality yn yr ysgol sef James Harper, rheolwr cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol y Principality a rheolwraig y gangen leol Virginia Linnell yn cyflwyno'r cit i'r merched. Cyflwynwyd crysau, skorts, sanau a siwmperi i'r tîm cyntaf gan ddymuno pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.



## Taith Fathemategol

Ar ddydd Mawrth, 13eg o Ragfyr, teithiodd 45 o ddisgyblion blwyddyn 11,12 a 13 i Gaerdydd ar gyfer darlith gan 'Maths Inspiration'. Trefnwyd y trip er mwyn ysbrydoli pobl ifanc i ddarganfod sut mae Mathemateg yn plethu â phynciau eraill. Prif ffocws y ddarlith oedd trafod rôl Mathemateg yn y byd chwaraeon a gan ein bod ym mhrif-ddinas Cymru, rygbi oedd canolbwynt y ddarlith.

Ar ôl cyrraedd (jyst mewn pryd) Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, dechreuodd y ddarlith a oedd yn para dwy awr. Rhaid dweud hedfanodd y ddwy awr oherwydd roedd y ddarlith yn llawn dop o weithgareddau, arbrofion a fideos di-ri. Yn ogystal roeddwn yn lwcus iawn gan fod enwogion wedi dod mewn i rannu eu profiadau. Y siaradwyr oedd Jennifer Rogers, Rob Eastaway a Hugh Hunt. Roedd gan bob un o'r siaradwyr uchod bwnc penodol i siarad amdano. Roedd Jennifer Rogers yn sôn am ystadegau, Rob Eastaway am benderfyniadau da a drwg ac yn olaf Hugh Hunt, am y fathemateg tu ôl i bêl rygbi.

Person enwog arall oedd yn cymryd rhan yn y ddarlith oedd Ryan Jones - cyn chwaraewr rygbi Cymru. Roedd Ryan Jones yn ased mawr iawn i'r ddarlith gan ei fod yn ysbrydoli a chreu argraff ar y bobl ifanc. Gan fod rygbi yn chwaraeon poblogaidd, defnyddiwyd Ryan Jones er mwyn dangos sut mae Mathemateg yn cael ei ddefnyddio ar y cae chwarae, er enghraifft, ble i gicio cic gosb. Dysgom fod hyn yn dibynnu ar ba mor fawr yw'r ongl - y lleiaf yw'r ongl, y lleiaf yw'r siawns o gael cic lwyddiannus. Doniol iawn oedd gweld Hugh Hunt yn ceisio dal y bêl rygbi a oedd yn teithio yn gyflym iawn gan fod Ryan Jones yn ceisio torri'r record byd am y pas cyflymaf.

Ar ôl i'r ddarlith orffen, fe ddechreuom ar ein taith adref o Gaerdydd. Erbyn hyn, roedd pawb wedi blino yn lan ac yn edrych ymlaen at fynd tua thre. Roedd Mrs Carruthers yn siomedig gan nad oedd amser i fynd i siopa!

## Ymweliad a pharc y Scarlets



Cafodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 11 gyfle i fynd i Barc y Sgarlets yn ddiweddar fel rhan o bartneriaeth rhwng Ysgol Bro Myrddin a chwmni'r Principality. Roedd yn gyfle i'r disgyblion ddatblygu ar ystod o sgiliau; cyfathrebu, gweithio fel tîm a ffitrwydd o dan ofal yr elusen 'School of Hard Knocks.' Cafwyd diwrnod llawn hwyl a gweithgareddau

## Pencampwyr Rygbi Sir Gaerfyrddin

Llongyfarchiadau i dîm cyntaf yr ysgol a gurodd ysgol Y Strade 5 – 20 yn ddiweddar. Bellach Bro Myrddin yw pencampwyr Sir Gâr.



## Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed bechgyn blwyddyn 8 am ennill 2-3 yn erbyn ysgol Aberaeron yng nghystadleuaeth Cwpan Ysgolion Cymru. Ymlaen yn awr i'r gemau go-gyn derfynol.



Mae tîm hŷn y bechgyn, tîm blwyddyn 7 ac 8 y merched a thîm blwyddyn 7 y bechgyn yn yr 16 olaf o Gwpan Ysgolion Cymru ac yn chwarae eu gemau yn yr wythnosau nesaf. Pob lwc iddynt.

## Rygbi

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm cyntaf am gyrraedd rownd go-gyn derfynol cwpan ysgolion Cymru ar ôl eu buddugoliaeth ysgubol yn erbyn Ysgol Penweddig.

## Ysgol Bro Myrddin yn dathlu Gŵyl Ddewi

Cofiwch ddod atom i rannu yn ein dathliadau Gŵyl Ddewi gyda chyngerdd arbennig yn Theatr y Lyric ar nos Sadwrn y 4ydd o Fawrth. Fe fydd Huw Chiswell yn ymuno gyda'r corau, Heledd Cynwal yn arwain y noson a Mr Eric Jones ein cyn-



bennaeth yn gadeirydd. Cyfle i chi flasu gwledd o gerddoriaeth.